Agenda

ELL 09-01(agd)

Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Dyddiad: 17 Mai 2001
Amser: 2.00pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Agenda

Eitem 1: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Cyflwyniad Thema Allweddol – Dysgu Gydol Oes ac Ehangu Mynediad gan yr Arglwydd Dearing (10 munud), cwestiynau a thrafodaeth (20 munud)

Papur: ELL 09-01(p.1)

Bydd yr Arglwydd Dearing yn rhoi cyflwyniad ar thema Dysgu Gydol Oes ac Ehangu Mynediad i'r Pwyllgor (10 munud), ac yna bydd cyfle i ofyn cwestiynau a chael trafodaeth (20 munud).

Eitem 2: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Trafodaeth Thema Allweddol – Ansawdd – Cyflwyniadau gan John Randall (10 munud) a'r Athro Mike Scott, ar ran HEW (10 munud), cwestiynau a thrafodaeth (40 munud)

Papur: ELL 09-01(p.2) a (p.3)

Bydd John Randall o'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn arwain cyflwyniad ar thema Ansawdd (10 munud) a'r Athro Mike Scott o NEWI ar ran HEW (10 munud), ac yna bydd cyfle i ofyn cwestiynau a chael trafodaeth (40 munud).

Bydd egwyl am 15 munud

Eitem 3: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Trafodaeth Thema Allweddol – Addysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg – Cyflwyniadau gan Gwilym Humphreys a Dr Cen Williams (10 munud) a Dafydd Glyn Jones (10 munud), cwestiynau a thrafodaeth (40 munud)

Papur: ELL 09-01(p.4) a (p.5)

Bydd Gwilym Humphreys, Cadeirydd, a Dr Cen Williams, Swyddog Datblygu Bwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Trwy Gyfrwng y Gymraeg yn arwain cyflwyniad ar thema Addysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg (10 munud). Bydd Dafydd Glyn Jones, Darllenydd, yr Adran Gymraeg, Prifysgol Cymru Bangor, hefyd yn rhoi cyflwyniad ar yr un thema (10 munud), a bydd cyfle i ofyn cwestiynau a chael trafodaeth (40 munud).

Eitem 4: Arolygu Rheoliadau Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001, ystyriaeth gan y Pwyllgor (15 munud)

Papur: ELL 09-01(p.6)

Mae'r Dirprwy Llywydd, dan Rheol Sefydlog 5.6, wedi cyfeirio y rheoliadau ddraft yma i'r Pwyllgor – efo cylch gwaith i adrodd yn ol erbyn Mai 29. Mae'r papur yma yn cynnwys y rheoliadau ddrafft, cofnod esboniadol a hefyd nodyn ar arwyddocad y rheoliadau a phwerau'r Pwyllgor.

Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod ar 9fed Mai

Papur: ELL 08-01(min)

Bydd gan y Pwyllgor y cyfle i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 9 Mai 2001.

Papur i'w nodi

Papur i'w nodi: Cynigion Diwygiedig ar Gyfarwyddyd Rheoli Perfformiad i Athrawon.

Papur: ELL 09-01(p.7)